**Heledd Fychan AS/MS**
**Trefnydd, Prif Chwip a Gweinidog y Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon**
**Trefnydd, Prif Chwip a Gweinidog y Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AS
Arweinydd, Ceidwadwyr Cymreig
Senedd Cymru
Drwy e-bost: Darren.Millar-MS@senedd.wales

8 Mehefin 2026

Annwyl Darren,

Yn ystod cwestiynau ar 2 Mehefin 2026, fe wnaethoch godi pryderon nad oedd hysbysiad AS / AS wedi'i gyhoeddi cyn ymweliad y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal ag Ysbyty Glan Clwyd ar 27 Mai.

Ers hynny, mae Gweinidog y Cabinet wedi cadarnhau taw ymweliad casglu gwybodaeth preifat oedd hwn iddo gwrdd â staff a Chadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Nid ymweliad cyhoeddus oedd hwn.

Mae'r Cod Gweinidogol yn glir mai dim ond ymweliadau o natur gyhoeddus sydd angen cyhoeddi hysbysiadau. Nid oedd hwn yn ddigwyddiad cyhoeddus, felly nid oedd angen hysbysiad.

Er hwylustod, mae'r adran berthnasol yn y Cod Gweinidogol wedi'i gopïo isod:

> 9.17 Wrth i Weinidogion baratoi i fynd ar ymweliad cyhoeddus yng Nghymru, mae'n arferiad iddynt hysbysu'r Aelodau etholaethol o'r Senedd a'r Aelod Seneddol ar gyfer yr ardal. Dylent ofalu peidio ag anghofio gwneud hyn, er y dylent ddefnyddio eu crebwyll mewn perthynas â risgiau diogelwch posibl. Ni chaniateir i'r Gweinidogion wahodd Aelodau o'r Senedd neu Aelodau Seneddol i fynd gyda hwy i ddigwyddiadau a drefnwyd gan drydydd parti, ond os ydynt yn rhoi digon o rybudd i'r Aelodau perthnasol, byddant yn gallu sicrhau eu bod yn cael cyfle i ofyn i'r trefnwyr lleol roi gwahoddiadau iddynt i ddigwyddiadau swyddogol y maent am fynd iddynt.

Gwnaeth swyddfa'r Gweinidog Cabinet ystyried y Cod wrth ddod i'r farn i beidio â chyhoeddi hysbysiad mewn perthynas â'r ymgysylltiad hwn.

Yn gywir



**Heledd Fychan AS/MS**
Trefnydd, Prif Chwip a Gweinidog y Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon
Trefnydd, Prif Chwip a Gweinidog y Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Heledd.Fychan@llyw.cymru
Gohebiaeth.Heledd Fychan@gov.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Croesawn dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebiaeth yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.